# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Crown Hill Dental Surgery/Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Dyddiad yr arolygiad: 8 Mawrth 2018

Dyddiad cyhoeddi: 11 Mehefin 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-935-1



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'n harolygiad ........ 6
3. Yr hyn a ganfuom ........ 8

   Ansawdd profiad y claf ........ 9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ........ 14

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ........ 22

4. Beth nesaf? ........ 25
5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ........ 26

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad . 27

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ........ 28

   Atodiad C – Cynllun gwella ........ 29

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull o weithredu yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur.**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Rhoi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Crown Hill Dental Surgery yn 62 Tudor Way, Ystâd Crown Hill, Llanilltyd Faerdref, Pontypridd CF38 2NH, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar 8 Mawrth 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Iechyd a Gofal 2015, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis hwn yn gweithio'n galed i roi profiad o ansawdd uchel i'w boblogaeth cleifion. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn daclus ac roedd y cyfleusterau ar un lefel, gan ddarparu mynediad hawdd i unrhyw un â phroblemau symudedd.

Cadarnhaodd yr adborth a gafwyd yn holiaduron AGIC fod cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth roedden nhw'n ei dderbyn.

Roedd systemau ar waith i dderbyn ac ymdrin â chwynion, ac roedd cyfleusterau i gleifion roi adborth yn amlwg yn y man aros.

Roedd yr holl offer radiograffig yn cael eu cynnal a chadw ac yn gweithio'n dda, ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffig yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Gwnaethom argymell cofnodi hanesion meddygol yn nodiadau electronig y cleifion. Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses ddadheintio, yn benodol, o ran cofnodi gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd a lawrlwytho a gwirio'r darlleniadau data ar gyfer yr awtoclaf.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y tîm staff i'w gweld yn hapus yn eu rolau ac roedd ganddyn nhw ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio pelydrau-X yn ddiogel
- Roedd y cyfleusterau clinigol wedi'u cyfarparu'n dda ac i'w gweld yn lân, ac roedd cynlluniau ar droed i ailwampio Ystafell Driniaeth 2 ym mis Ebrill 2018

- Roedd yr adborth gan y cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol dros ben. Dywedodd pob claf wrthym ei fod yn cael ei drin â pharch pan oedd yn ymweld â'r practis

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd ychydig o hyfforddiant y staff yn anghyflawn, a gwnaethom argymell bod hyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf, yn enwedig o ran diogelu, cymorth cyntaf a dadheintio.

- Mae angen gwella cofnodion cleifion, yn benodol, o ran sicrhau bod hanesion meddygol yn cael eu cofnodi ar nodiadau electronig cleifion a sicrhau bod y templedi a ddefnyddir i gofnodi gwybodaeth am gleifion yn cael eu haddasu i adlewyrchu cofnod unigol y claf

- Mae angen gosod darllenydd cylchred ar un awtoclaf er mwyn sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio, ac mae angen lawrlwytho ac adolygu'r data o'r awtoclaf arall yn rheolaidd. Mae angen gwneud hyn er mwyn sicrhau y gall staff benderfynu a yw'r offer yn gweithio'n effeithiol

- Mae angen cwblhau llyfrau lòg yr awtoclafau er mwyn cydymffurfio'n llawn â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[1]

- Mae angen rhoi system adolygu cymheiriaid ar waith ar gyfer staff clinigol

Gweler Atodiad C am restr lawn o'r argymhellion.

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Crown Hill Dental Surgery yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn Llanilltud Faerdref a'r cymunedau cyfagos. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal sy'n cael ei gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, un hylenydd a thair nyrs ddeintyddol.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod y practis hwn yn gweithio'n galed i roi profiad o ansawdd uchel i'w boblogaeth cleifion. Canfuom wybodaeth berthnasol wedi'i harddangos yn y man aros, a chadarnhaodd yr adborth a gawsom trwy holiaduron AGIC fod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth y maen nhw'n ei dderbyn.

Cefnogwyd y practis gan systemau a oedd yn sicrhau bod unrhyw gwynion a sylwadau'n cael eu casglu'n gyson. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r wybodaeth am gwyno gael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'n glir y broses i'w dilyn o ran triniaethau preifat a darparu manylion sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw os ydynt am godi cwyn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 24 o holiaduron. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Rhagorol, ni ellid ei wella"*
>
> *"Daliwch ati â'r gwaith da"*
>
> *"Wedi cael gofal rhagorol bob amser"*
>
> *"Rwy'n hapus iawn ar y gofal rwyf i a'm teulu'n ei dderbyn gan fy neintyddfa. Rydym bob amser yn cael ein cyfarch â gwên a sgwrs hyfryd."*

### Cadw'n iach

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn y man aros, gan gynnwys taflenni gwybodaeth a phosteri ynghylch gwahanol fathau o driniaethau a gwybodaeth

ataliol. Gwnaethom nodi bod rhai posteri'n cynnwys gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Roedd rhestri prisiau wedi'u harddangos yn y man aros ar gyfer ffioedd y GIG a chostau triniaethau preifat.

Roedd arwydd 'Dim ysmygu' wedi'i arddangos ar ddrws y brif fynedfa, a oedd yn cadarnhau bod pwyslais yn cael ei roi ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar gyfer safleoedd di-fwg.

## Gofal ag urddas

Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Defnyddiai'r staff yr ystafelloedd triniaeth i siarad â chleifion yn breifat, i ffwrdd o'r cleifion eraill os oedd angen. Clywsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd yr adborth gan gleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol tu hwnt. Dywedodd pob claf wrthym ei fod yn cael ei drin â pharch pan oedd yn ymweld â'r practis.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael iddynt.

Er i'r mwyafrif o gleifion a gwblhaodd holiadur ddweud bod cost unrhyw driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth, dywedodd pump o'r ymatebwyr wrthym nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael i'w gweld yn y dderbynfa, a oedd yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint gallai eu triniaeth ei gostio.

Gwnaethom hefyd weld tystiolaeth o gynllunio triniaethau, a chofnodwyd yr opsiynau mewn sampl o gofnodion cleifion a welwyd gennym. Golygai hyn fod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Roedd gan y practis ei daflen wybodaeth ei hunan i gleifion fynd â nhw ymaith, a oedd yn cynnwys costau'r GIG, manylion cyswllt a gwasanaethau deintyddol brys.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd rhai staff a oedd yn gweithio yn y practis yn gallu siarad â chleifion yn Gymraeg a Saesneg. Roedd dau o'r 24 o gleifion a gwblhaodd holiadur yn

ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Pan ofynnwyd iddynt pa mor aml roedden nhw'n gallu siarad Cymraeg â'r staff pan oedden nhw'n dymuno gwneud hynny; dywedodd un bob amser a dywedodd y llall weithiau.

Dywedodd yr holl gleifion nad oeddent yn siarad Cymraeg a gwblhaodd holiadur eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol bob amser.

## Gofal amserol

Roedd y practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol bob amser yn cael ei ddarparu mewn modd amserol, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys.

Roedd rhif ffôn brys y tu allan i oriau ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys ar gleifion y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn wedi'i arddangos yn y man aros, ac roedd hefyd ar gael ar neges y peiriant ateb ac yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl adborth gan y cleifion a gwblhaodd ein holiaduron gadarnhau bod y tîm deintyddol wedi trafod â nhw ynghylch sut i gadw eu cegau a'u dannedd yn lân, ac roeddent yn rhan o unrhyw benderfyniadau a wneid ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno.

### Hawliau pobl

Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisi cyfle cyfartal pwrpasol ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg.

Roedd mynediad i'r practis yn hygyrch i'r rhai hynny â phroblemau symudedd trwy ddrws a weithredir â thrydan. Roedd yr holl ardaloedd i gleifion ar un llawr.

Roedd gan y practis doiled cyhoeddus a oedd wedi'i arwyddo'n glir. Roedd yr amwynderau'r lân ac yn darparu cyfleusterau golchi a sychu dwylo. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ganllawiau i gynorthwyo unrhyw un â phroblemau

symudedd. Trafodwyd hyn ar adeg ein hymweliad, a dywedodd y staff y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i addasu'r cyfleusterau ymhellach er mwyn cynorthwyo cleifion.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Gwnaethom nodi nad oedd y polisi'n rhestru manylion cyrff eraill y gallai cleifion fod eisiau cysylltu â nhw pe baen nhw am godi cwyn, ac argymhellwyd bod y rhain yn cael eu hychwanegu at y polisi.

Dywedodd 14 o'r 24 o gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i leisio pryder neu gŵyn am y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn yn y ddeintyddfa. Roedd gweithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn y man aros, a oedd yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella'r[2] GIG. Nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos am sut gallai cleifion preifat gwyno nac am y broses i'w dilyn. Gwnaethom argymell bod yr wybodaeth hon yn cael ei harddangos er mwyn sicrhau bod yr holl gleifion yn dilyn y weithdrefn gywir ac yn cael manylion sefydliadau eraill y gallai cleifion gysylltu â nhw pe baen nhw'n cwyno.

Roedd prosesau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i unrhyw gwynion roedd y practis yn eu derbyn. Ategwyd pob cwyn gan gofnod digwyddiad cyflawn, a oedd yn dangos statws cyfredol y gŵyn yn glir. Fodd bynnag, gwnaethom gynghori y dylid llofnodi a dyddio cofnodion digwyddiadau er mwyn dangos eu bod wedi'u cwblhau.

Roedd gan y cofnodion digwyddiadau adran i nodi'r math o ddigwyddiad a oedd yn cael ei gofnodi, a gellid defnyddio hon i gofnodi unrhyw sylwadau a dderbynnir ar lafar a/neu'n anffurfiol gan y practis.

Roedd gan y practis system ar waith i gael adborth/safbwyntiau cleifion ar y gwasanaeth roedden nhw'n ei dderbyn. Roedd ffurflenni adborth, pennau a blwch i bostio atebion yn ddi-enw yn y man aros.

---

[2] Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer rheoli pryderon yn GIG Cymru.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen diweddaru'r wybodaeth am gwynion sydd wedi'i harddangos er mwyn dangos y broses y dylai claf ei dilyn ar gyfer unrhyw gwynion ynghylch triniaethau preifat. Dylid hefyd rhestru'n glir manylion sefydliadau eraill y gallai claf fod eisiau cysylltu â nhw.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion. Gwelsom dystiolaeth fod contractau amrywiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd a'r cyfleusterau'n ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Roedd yr holl offer radiograffig yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n dda, ac roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio'r offer radiograffig yn ddiogel. Gwelsom dystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Gwnaethom argymell y dylid cofnodi hanesion meddygol cleifion yn nodiadau electronig cleifion.  Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses ddadheintio, yn benodol, o ran cofnodi gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd a lawrlwytho a gwirio darlleniadau data'r awtoclaf.

Roedd angen i rai aelodau o'r staff gwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion a phlant agored i niwed, a chadw tystiolaeth o hyn ar ffeil.

### Gofal diogel

Ni nodwyd unrhyw faterion a oedd yn gofyn am sicrwydd ar unwaith yn ystod yr ymweliad arolygu hwn.

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, canfuom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis mewn dull diogel. Gwelsom wastraff peryglus yn cael ei storio'n briodol. Roedd y cyngor lleol yn casglu gwastraff nad oedd yn beryglus (cartref) ac yn ei waredu. Gan nad oedd unrhyw gontract ar waith ar gyfer y casgliadau hyn, gwnaethom ofyn i'r practis gysylltu â'r cyngor lleol i ofyn a oedd angen contract.

Roedd gan y practis adeilad dau lawr, gyda'r holl gyfleusterau i gleifion ar y llawr daear. Ardal ar gyfer staff yn unig oedd ar yr ail lawr. Gwelwyd bod y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad yn cael eu cynnal a’u cadw'n dda, ac roedd pob ardal o fewn y practis yn lân ac yn daclus.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; a nododd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur bron fod y practis deintyddol yn lân iawn yn eu tyb nhw.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch y practis, a gwelsom eu bod wedi'u gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd allanfeydd brys i'w gweld yn glir, ac roedd y poster iechyd a diogelwch wedi'i arddangos yn glir yn y dderbynfa.

Canfuom gynhyrchion glanhau, mopiau a brwsh wedi'u storio yn yr ystafell ddadheintio, a gwnaethom argymell bod y rhain yn cael eu symud a bod y practis yn dod o hyd i fan storio arall, i ffwrdd o'r mannau cyhoeddus.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid symud yr offer glanhau o'r ystafell ddadheintio a darparu man storio arall, i ffwrdd o unrhyw fan gyhoeddus.

## Atal a rheoli heintiau

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer glanhau a sterileiddio offer (a elwir hefyd yn ddadheintio). Roedd ein harsylwadau ar y broses hon yn foddhaol. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio i lanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd offer deintyddol wedi'u storio'n briodol a'u dyddio
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint
- Sinc neilltuedig i olchi dwylo

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliadau rheoli heintiau wedi'u cynnal ym mis Mehefin 2017 a mis Ionawr 2018. Mae hyn yn sicrhau bod y practis yn gallu archwilio ei broses ddadheintio er mwyn gwneud yn siŵr fod yr arfer gorau'n cael ei ddilyn, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd gan y practis lyfrau lòg ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio bob dydd, ond gwelsom nad oedd y rhain yn gyflawn. Gwnaethom argymell y dylid ystyried defnyddio llyfrau lòg neilltuedig eraill er mwyn cydymffurfio â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, er mwyn dangos yn glir bod gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd yn cael eu cwblhau.

Ar adeg ein hymweliad, gwnaethom nodi nad oedd gan un o'r awtoclafau ddarllenydd cylchred[3] na dyfais allbrintio . Gwnaethom argymell bod darllenydd cylchred yn cael ei osod ar frys er mwyn sicrhau bod yr awtoclaf yn ddiogel ac yn effeithlon i'w ddefnyddio. Nid oedd gwybodaeth o'r awtoclaf gyda darllenydd cylchred a oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan y practis yn cael ei lawrlwytho a'i gwirio'n rheolaidd. Gwnaethom ofyn i'r staff sicrhau bod yr wybodaeth o'r darllenydd cylchred yn cael ei lawrlwytho a'i chofnodi er mwyn dangos bod y tymheredd a'r pwysedd wedi'i gyrraedd.

Roedd angen i rai aelodau o'r staff ddiweddaru eu hyfforddiant ar weithdrefnau dadheintio, ac roedd angen gwneud hyn cyn gynted â phosibl.

[3]Defnyddir darllenydd cylchred i sicrhau bod awtoclaf yn cyrraedd y tymheredd cywir am y cyfnod cywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid cwblhau llyfrau lòg awtoclaf yn llawn er mwyn dangos yn glir bod gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi.

Rhaid gosod darllenydd cylchred a/neu ddyfais allbrintio ar y peiriant awtoclaf

Rhaid lawrlwytho a gwirio'r data o ddarllenydd cylchred yr awtoclaf yn rheolaidd

Mae angen sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf mewn gweithdrefnau dadheintio

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion; ac roedd offer dadebru ar gael i'w defnyddio. Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd polisi dadebru ar waith, ond gwnaethom argymell bod y polisi'n cael ei ddiweddaru gyda gwybodaeth benodol am swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff mewn argyfwng.

Ar adeg ein hymweliad, gwnaethom nodi bod dyddiad dod i ben un teclyn anadlu[4] wedi mynd heibio, ac roedd llai na 30 munud o gyflenwad yn y cynhwysydd ocsigen cludadwy. Cafodd hyn ei fwydo'n ôl i'r staff ar unwaith, a threfnwyd iddynt gael eu newid. Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod hyn wedi'i gwblhau, a oedd yn sicrhau bod offer dadebru digonol ar gael. Ni wnaethom lwyddo i ddod o hyd i'r dystysgrif ocsigen ar gyfer y gwiriad blynyddol ar ddiwrnod yr ymweliad. Fodd bynnag, cafodd y dystysgrif ei chyflwyno i AGIC ar ôl yr ymweliad.

Roedd gan y practis swyddog cymorth cyntaf a enwir wedi'i benodi, ond roedd y dystysgrif wedi dod i ben yn ystod 2016. Gwnaethom argymell felly fod y practis yn trefnu hyfforddiant cymorth cyntaf cyn gynted â phosibl, a sicrhau bod digon o staff yn cael eu hyfforddi i sicrhau bod swyddog cymorth cyntaf ar

[4]Dyfais a ddefnyddir i greu llwybr clir i bwmpio awyr i mewn ac allan o'r ysgyfaint yn ystod anesthesia cyffredinol neu pan fydd rhwystr yn y llwybr anadlu.

gael ar bob adeg. Cedwid y bocs cymorth cyntaf mewn cabinet dan glo, a gwnaethom ofyn i'r practis ystyried y trefniadau mynediad, er mwyn sicrhau y gellid cael gafael ar offer cymorth cyntaf yn hawdd mewn argyfwng.

Roedd y cyffuriau argyfwng a gedwid yn y practis wedi'u storio'n briodol, yn ôl pob golwg, er mwyn cael gafael arnynt yn hawdd mewn argyfwng. Roedd gan y practis system i ddangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal i wirio ac ailgyflenwi cyffuriau a nodwyddau yr oedd eu dyddiadau wedi dod i ben, yn unol â'r safonau a nodir gan Gyngor Dadebru'r DU[5], ond gwnaethom argymell y dylai'r staff lofnodi a dyddio'r rhestr wirio pan fydd y gwiriadau wedi'u cwblhau.

Roedd llyfr damweiniau ar gael i gofnodi unrhyw wybodaeth am ddamweiniau fel rhan o'r gwaith o reoli iechyd a diogelwch. Gwnaethom argymell bod y cofnodion a gwblhawyd yn cael eu symud a'u storio yn rhywle diogel, ar wahân er mwyn cadw cyfrinachedd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r trefniadau storio ar gyfer y bocs cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir cael gafael ar y bocs yn gyflym mewn argyfwng.

Mae angen diweddaru hyfforddiant cymorth cyntaf y swyddog(ion) cymorth cyntaf penodedig.

Mae angen tynnu cofnodion wedi'u cwblhau o'r llyfr damweiniau a'u storio'n ddiogel er mwyn cadw cyfrinachedd.

Rhaid diweddaru'r polisi dadebru er mwyn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau penodol y staff.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

[5] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu.

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd polisïau diogelu ar waith ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Gwnaethom argymell bod y polisïau'n cael eu diweddaru er mwyn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol, a dylid ystyried cynnwys siart lif a fyddai'n atgoffa'r staff o'r camau roedd angen eu cymryd pe bai problem diogelu'n codi.

Gwnaethom nodi bod hyfforddiant rhai o'r staff ar ddiogelu wedi dod i ben a/neu'n anghyflawn. Cafodd hyn ei godi gyda'r staff yn ystod yr ymweliad, a gwnaethom ofyn i hyn gael ei gwblhau cyn gynted â phosibl, er mwyn cydymffurfio â'u cofrestriad proffesiynol gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedodd y staff wrthym am y gwiriadau cyn-gyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o'r staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd yr holl staff wedi cael eu tystysgrifau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu'n aros amdanynt.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu'r hyfforddiant diogelu er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau a'r wybodaeth, a dylid cadw'r tystysgrifau ar ffeiliau'r staff.

Mae angen diweddaru'r polisïau diogelu er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd i drefniadau lleol, yn benodol, manylion y tîm diogelu lleol.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol o fewn y practis a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Roedd yr ystafelloedd triniaeth wedi'u trefnu'n dda ar y cyfan er mwyn helpu'r tîm i weithio'n effeithlon. Gwnaethom argymell y dylid trefnu'r droriau yn Ystafell Driniaeth 2 yn well a'u tacluso ar adeg ein hymweliad, oherwydd gwelsom rai eitemau o offer a oedd wedi'u dadbacio yn y droriau. Gwnaethom argymell bod y rhain yn cael eu cadw dan sêl er mwyn sicrhau bod yr offer yn parhau i fod yn lân.

Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg, ac roedd holl arwynebau'r llawr a'r arwynebau gwaith wedi'u selio ar yr ymylon i sicrhau bod y practis yn cadw at y gweithdrefnau rheoli heintiau. Gwnaeth y staff hefyd ddweud wrthym am y cynlluniau i ailwampio Ystafell Driniaeth 2 ym mis Ebrill 2018.

Roedd yr holl offer radiolegol yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn gweithio'n dda. Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) mewn modd diogel a thystiolaeth fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ymbelydredd ïoneiddio. Roedd y llythyr hysbysu at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch diogelwch radiolegol ar ffeil, a oedd yn cadarnhau bod y practis wedi cofrestru gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn ôl y gofyn.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperid yn barhaus. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau wedi'u cwblhau a/neu'n cael eu trefnu gan y practis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Trwy drafod â'r staff, cawsom wybod nad oedd unrhyw system adolygu cymheiriaid ffurfiol rhwng staff clinigol. Mae system adolygu cymheiriaid yn gwerthuso gwaith proffesiynol eraill yn yr un maes. Defnyddir y dull hwn i helpu i gadw'r safonau ansawdd a gwella'r perfformiad lle y bo'n berthnasol. Argymhellwn fod system adolygu cymheiriaid yn cael ei rhoi ar waith er mwyn cyfrannu at ansawdd a diogelwch y gofal a roddir i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen rhoi system ar waith i werthuso'r gwaith clinigol proffesiynol (adolygu cymheiriaid) er mwyn helpu i gadw a gwella safon yr ansawdd gofal i gleifion.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Er enghraifft, roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei wneud yn rheolaidd ac roedd y mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn breifat. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o 15 o gofnodion cleifion yn y practis. Canfuom fod y cofnodion yn briodol ac yn ddigon manwl ar y cyfan, gyda

gwybodaeth am driniaeth pob claf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi materion yr oedd angen mynd i'r afael â nhw, gan gynnwys:

- Mae angen diweddaru hanesion meddygol a'u cwblhau'n llawn ar ffeil electronig y claf
- Roedd templedi'n cael eu defnyddio i gofnodi nodiadau cleifion, ond nid oedd y templed yn cael ei addasu i ddangos cofnod unigol y claf

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen gwella ffeiliau'r cleifion, yn benodol er mwyn sicrhau bod hanesion meddygol yn cael eu cwblhau'n llawn ar ffeiliau electronig cleifion, ac addasu'r templedi er mwyn dangos cofnodion cleifion unigol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom dystiolaeth o systemau a phrosesau ar waith a oedd yn sicrhau bod y practis a'r staff yn cael eu cefnogi a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith ac roedd systemau ar gael i ymsefydlu, hyfforddi a chefnogi staff.

Gwnaethom argymell bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu er mwyn dangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r rheoliadau/canllawiau priodol ar gyfer Cymru.

Roedd angen diweddaru hyfforddiant rhai aelodau o'r staff, ac argymhellir bod hyn yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl er mwyn bodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae perchennog presennol Crown Hill Dental Surgery wedi bod yn darparu gwasanaethau ar y safle cyfredol ers 2015.

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Roedd yr holl staff wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd am flynyddoedd maith, a gellid gweld hyn trwy eu perthynas a'r cleifion a'r ffordd yr oedden nhw'n rhyngweithio â nhw. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisi chwythu'r chwiban, a gwnaethant ddweud wrthym y gallent godi unrhyw broblem neu bryder ynghylch y gofal a ddarperir i gleifion yn hyderus gyda'r deintydd, rheolwr y practis neu gyda chorff priodol os oedd angen.

Roedd yr holl staff yn ymrwymedig i ddarparu safon uchel o ofal i'w cleifion, ac ategwyd hyn gan amrediad o bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y staff wedi llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau i gadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u bod yn deall eu cyfrifoldebau. Gwnaethom argymell y dylai pob polisi a gweithdrefn gynnwys dyddiad cyhoeddi ac adolygu, oherwydd roedd yr wybodaeth hon ar goll ar y dogfennau y gwnaethom eu hadolygu ar adeg yr ymweliad. Yn ogystal, roedd rhai polisïau'n cyfeirio at reoliadau/canllawiau ar gyfer Lloegr, ac mae angen diwygio'r rhain i adlewyrchu'r rheoliadau ar gyfer Cymru.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r holl bolisïau a gweithdrefnau gael dyddiad cyhoeddi ac adolygu er mwyn dangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Rhaid i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru, gan gynnwys sicrhau yr adlewyrchir rheoliadau, safonau a chanllawiau sy'n benodol i Gymru.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Roedd tystiolaeth o raglen ymsefydlu i aelodau newydd o'r staff. Cawsom wybod bod nyrsys deintyddol asiantaeth wedi bod yn gweithio yn y practis, a gwnaethom argymell bod sesiwn ymsefydlu'n cael ei chynnal a'i chofnodi ar gyfer pob aelod staff asiantaeth er mwyn sicrhau ei fod yn gyfarwydd â chyfleusterau'r practis ac yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddo pan fydd yn gweithio yn y practis.

Gwelsom fod yr holl staff wedi ymgymryd â hyfforddiant amrywiol, a chedwid y tystysgrifau ar ffeiliau'r staff. Fodd bynnag, roedd dyddiad rhai meysydd hyfforddi wedi dod i ben neu'n anghyflawn/yn parhau, ac roedd angen sylw ar y rhain er mwyn bodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwelsom gofnodion a oedd yn ymwneud â statws imiwneiddio rhag Hepatitis B yr holl staff clinigol a oedd yn gweithio yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu hamddiffyn rhag y firws hwn a gludir yn y gwaed.

Roedd tystiolaeth o holiaduron arfarnu ar y ffeiliau yr adolygwyd gennym, ond nid oedd y rhain wedi'u dyddio. Felly, er mwyn dangos bod staff yn cael eu

harfarnu'n rheolaidd, mae angen dyddio'r rhain a'u llofnodi er mwyn cadarnhau eu bod yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

Roedd tystiolaeth o gyfarfodydd staff misol a oedd yn cael eu cofnodi, a llofnodwyd y cofnodion hyn gan y staff i ddangos eu bod yn gofnod cywir o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y cyfarfod. Yn ogystal, oherwydd y trafodaethau dyddiol bychain a gynhaliwyd gan y tîm staff, roedd y staff yn fodlon eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion a oedd yn ymwneud â'r practis.

Gwnaethom gadarnhau bod gan bob aelod o'r staff ar wahân i un wiriad dilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar ffeil. Gwnaethom argymell y dylid gofyn i'r unigolyn am gopi a'i gadw yn y ffeil staff. Roedd yr holl staff (lle y bo'n berthnasol) wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd tystysgrif AGIC y deintydd wedi'i harddangos, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen adolygu hyfforddiant yr holl staff er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy’n dweud wrthym am y camau brys y maen nhw'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodir, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a gymerir mewn ymateb i'r problemau a nodir yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol
- Cynnwys digon o fanylion i sicrhau AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylid rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd o arolygiad. Gwneir hyn er mwyn gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn cael ei redeg yn ôl yr arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o aflonyddwch i gleifion â phosib.

Mae adborth yn cael ei roi i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethauRheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen mynd i'r afael â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni welwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Crown Hill Dental Surgery

## Dyddiad yr arolygiad: 8 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Crown Hill Dental Surgery

## Dyddiad yr arolygiad: 8 Mawrth 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen diweddaru'r wybodaeth am gwynion sydd wedi'i harddangos er mwyn dangos y broses y dylai claf ei dilyn ar gyfer unrhyw gwynion ynghylch triniaethau preifat. Dylai manylion sefydliadau eraill y gallai cleifion fod eisiau cysylltu â nhw gael eu hychwanegu/rhestru'n glir hefyd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 21 (4) (a) | Mae adolygiad wedi'i gynnal o'r wybodaeth am gwynion, ac mae'r wybodaeth hon wedi'i newid a'i haddasu. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | Cwblhawyd<br>12/04/2018 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid symud yr offer glanhau o'r ystafell | Safonau | Mae'r holl offer glanhau wedi'u symud | Ruth Phillips | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ddadheintio a darparu man storio arall, i ffwrdd o unrhyw fan gyhoeddus. | Iechyd a Gofal 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 22 (2) (a) | o'r ystafell ddadheintio ac i ffwrdd o fannau cyhoeddus. | Rheolwr y practis | 15/03/2018 |
| Rhaid cwblhau llyfrau lòg awtoclaf yn llawn er mwyn dangos yn glir bod gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd yn cael eu cwblhau a'u cofnodi. | Safonau Iechyd a Gofal 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadheintio; 3.5 Cadw cofnodion<br><br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru | Llyfrau lòg newydd wedi'u prynu ar gyfer:<br><br>Awtoclaf 1, Awtoclaf 2 a'r peiriant uwchsonig.<br><br>Mae'r rhain yn cael eu defnyddio bellach i nodi a chofnodi'r gwiriadau ar ddechrau a diwedd y dydd. | Ruth Phillips<br><br>Rheolwr y practis | Cwblhawyd<br><br>27/03/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 01-05 | | | |
| Rhaid gosod darllenydd cylchred a/neu ddyfais allbrintio ar y peiriant awtoclaf. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017, Rheoliad 13 (1)(b) a (2)(a) | Mae darllenydd cylchred wedi'i archebu a disgwylir iddo gael ei osod ar Awtoclaf 1 ar ddiwedd mis Ebrill. | Ruth Phillips<br><br>Rheolwr y practis | 30/04/2018 |
| Rhaid lawrlwytho a gwirio data darllenydd cylchred yr awtoclaf yn rheolaidd. | Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2017, Rheoliad 13 (1)(b) a (2)(a) | Mae ein nyrs arwain dadheintio benodedig yn lawrlwytho ac yn gwirio'r data bellach (o Awtoclaf 2) o leiaf unwaith yr wythnos. Rydym hefyd wedi trefnu diwrnod hyfforddiant staff ym mis Mai i bob gweithiwr gofal deintyddol proffesiynol, er mwyn iddo allu ymgyfarwyddo â'r broses. | Ruth Phillips<br><br>Rheolwr y practis | 27/04/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen sicrhau bod yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf mewn gweithdrefnau dadheintio. | Safonau Iechyd a Gofal 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadheintio; 7.1 Y gweithlu<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Mae'r holl aelodau o'r staff nad oeddent wedi cael hyfforddiant dadheintio/ croes-heintio o hyd naill ai wedi mynychu cwrs i ddarparu'r hyfforddiant angenrheidiol neu byddant yn mynychu un yn fuan.<br>Hefyd, mae'r practis yn parhau i gynnal hyfforddiant staff mewnol rheolaidd ar ddadheintio/rheoli croes-heintio. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | 30/04/2018 |
| Mae angen adolygu'r trefniadau storio ar gyfer y bocs cymorth cyntaf er mwyn sicrhau y gellir cael gafael ar y bocs yn gyflym mewn argyfwng. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13 (1)(b) | Mae protocol newydd wedi'i fabwysiadu ar gyfer y bocs cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys er mwyn sicrhau y gellir cael gafael ar y bocs yn gyflym. Bydd yr allwedd ar gyfer y cabinet yn cael ei chadw mewn un lle ar bob adeg yn ystod oriau agor y ddeintyddfa. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | Cwblhawyd<br>15/03/2018 |
| Mae angen diweddaru hyfforddiant cymorth cyntaf y swyddog(ion) cymorth cyntaf penodedig. | Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth | Rydym wedi penderfynu y bydd pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf. Hoffem wneud hyn fel tîm, ac rydym yn aros am gadarnhad o ddyddiad ar gyfer hyfforddiant mewnol | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | 31/05/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Cyntaf) 1981<br>Safonau Iechyd a Diogelwch 7.1 Y Gweithlu | ar hyn o bryd. | | |
| Mae angen tynnu cofnodion wedi'u cwblhau o'r llyfr damweiniau a'u storio'n ddiogel er mwyn cadw cyfrinachedd. | Safonau Iechyd a Gofal 3.5 Cadw cofnodion | Rydym wedi adolygu a mabwysiadu protocol newydd. Bydd cofnodion damweiniau staff yn cael eu ffeilio yn eu ffeiliau personol eu hunain a chofnodion damweiniau cleifion yn cael eu sganio ar eu ffeil electronig. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | Cwblhawyd<br>15/03/2018 |
| Bydd y polisi dadebru'n cael ei ddiweddaru i gynnwys rolau a chyfrifoldebau penodol staff. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 31 (1) a (2) (b) | Mae gennym ddiwrnod hyfforddiant staff ym mis Mai, lle byddwn yn gallu trafod a threfnu rolau a chyfrifoldebau o ran y polisi dadebru. Wedi hyn, byddwn yn rhoi hyn ar waith ac yn llunio polisi newydd sy'n mabwysiadu'r newidiadau. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | 31/05/2018 |
| Mae angen adolygu'r hyfforddiant diogelu er mwyn sicrhau bod gan yr holl staff y sgiliau a'r wybodaeth, a dylid cadw'r tystysgrifau ar ffeiliau'r staff. | Safonau Iechyd a Gofal 2.7 Diogelu Plant a Diogelu | Mae'r hyfforddiant diogelu wedi'i adolygu a hyfforddiant perthnasol wedi'i drefnu ar gyfer aelodau o'r staff a oedd angen gwneud hwn. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | 31/05/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Oedolion mewn Perygl<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 14 (1)(b)<br><br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3; 8.5 | | | |
| Mae angen diweddaru'r polisïau diogelu er mwyn sicrhau y gellir dod o hyd i drefniadau lleol, yn benodol, manylion y tîm diogelu lleol. | Safonau Iechyd a Gofal 2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion mewn Perygl<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad | Mae ein bwrdd diogelu lleol wedi'i adolygu ac mae protocol newydd yn cael ei lunio i gyd-fynd â'i drefniadau. | Ruth Phillips<br><br>Rheolwr y practis | 31/05/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | 14 (1)(a) ac (c)<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.3.3; 8.5 | | | |
| Mae angen rhoi system ar waith i werthuso'r gwaith clinigol proffesiynol (adolygu cymheiriaid) er mwyn helpu i gadw a gwella safon yr ansawdd gofal i gleifion. | Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | Rydym yn bwriadu cymryd rhan yn rhaglen CAPRO trwy adran ddeintyddol i ôl-raddedigion Deoniaeth Cymru'r haf hwn. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | 31/08/2018 |
| Mae angen gwella ffeiliau'r cleifion, yn benodol er mwyn sicrhau bod hanesion meddygol yn cael eu cwblhau'n llawn ar ffeiliau electronig cleifion, ac addasu'r templedi er mwyn dangos cofnodion cleifion unigol. | Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol 3.5 Cadw cofnodion<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 20 (1) (a) | Mae pob claf bellach yn llenwi ffurflenni hanes meddygol ysgrifenedig yn ystod pob archwiliad, ac yn llofnodi'r ffurflenni. Caiff hanesion meddygol eu gwirio'n electronig yn ystod pob apwyntiad. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | Cwblhawyd 18/03/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | (i) (ii)<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 4.1 | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Mae angen i bob polisi a gweithdrefn gynnwys dyddiad cyhoeddi a dyddiad adolygu er mwyn dangos ei fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 8 (6) ac (8) | Mae mynegai wedi'i lunio sy'n cynnwys rhestr o'r holl bolisïau a gweithdrefnau, ynghyd â'u dyddiadau cyhoeddi a'u dyddiadau adolygu. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | Cwblhawyd<br>22/03/2018 |
| Rhaid i'r holl bolisïau a gweithdrefnau fod yn briodol ac yn berthnasol i Gymru, gan gynnwys sicrhau yr adlewyrchir rheoliadau, safonau a chanllawiau sy'n benodol i Gymru. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, Rheoliad 14 (1)(b)<br>Safonau’r | Mae'r holl bolisïau wedi'u haddasu bellach i adlewyrchu'r rheoliadau, y safonau a'r canllawiau sy'n benodol i Gymru. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | 18/04/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Deintyddol Cyffredinol 6.6 | | | |
| Mae angen adolygu hyfforddiant yr holl staff er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf. | Safonau Iechyd a Diogelwch 7.1 Y Gweithlu<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 17 (1)(a) | Rydym wedi creu ffeil hyfforddiant staff, yn ogystal â rhestr o'r hyfforddiant nad yw wedi'i wneud a'r cyrsiau y bydd staff yn eu mynychu. | Ruth Phillips<br>Rheolwr y practis | 29/03/2018 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Ruth Phillips

## Swydd: Rheolwr y Practis

## Dyddiad:18 Ebrill 2018